

Yr ymgynghoriad Statudol i gyfuno Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal Y Bont ac Ysgol Trefriw, Sir Conwy

8 Tachwedd 2015

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Yr ymgynghoriad Statudol i gyfuno Ysgolion Dolgarrog, Tal Y Bont a Threfriw

Cyflwyniad

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori (Y Ddogfen) hon ar gyfuno ysgolion Dolgarrog, Tal Y Bont a Threfriw. Byddwn yn fwy na pharod i ymhelaethu ar y sylwadau hyn a'u trafod unrhyw bryd.

Mae UCAC yn gwerthfawrogi dyhead yr Awdurdod i sicrhau ysgolion modern sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac yn llawn sylweddoli bod yr Awdurdod yn wynebu her wrth geisio cynllunio ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth orau mewn ardal fwy gwledig o fewn y Sir. Cydnabyddir hefyd bod ad-drefnu ysgolion yn fater cymhleth a bod amrywiaeth barn a theimladau cryfion o du disgyblion, rhieni, staff ysgol a'r cymunedau eu hunain.

Mae UCAC yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi cynnal cyfres o sesiynau 'galw heibio' i randdeiliaid, ac yn benodol rhieni a staff, dderbyn gwybodaeth a gwneud sylwadau. Bu i un o swyddogion UCAC fynychu un o'r sesiynau hyn a thra bod y staff a oedd yn bresennol yn hynaws ac yn awyddus i ymateb i ymholiadau, nid oeddynt mewn sefyllfa i ateb nifer o gwestiynau allweddol a phenodol am y bwriadau hyn, yn arbennig ar faterion staffio.

Rhesymau dros newid

Mae UCAC yn llawn sylweddoli bod awdurdodau lleol dan bwysau i leihau'r niferoedd o lefydd gweigion o fewn ysgolion ac y mae'n amlwg bod y cynllun hwn yn ceisio ymateb i hynny. Profiad ein haelodau mewn sawl sir ydy nad yw capasiti adeiladau bob amser yn adlewyrchu bob tro faint o le sydd o fewn adeilad mewn gwirionedd oherwydd y ffordd y caiff y capasiti hwnnw ei gyfrifo. Mae yna beryglon o godi ysgolion sydd yn fuan yn rhy fach a rhaid bob yn ymwybodol bod ystadegau yn awgrymu cynnydd yn y boblogaeth dros y ddegawd nesaf fydd yn naturiol yn effeithio gyntaf ar ysgolion cynradd. Rhaid i gynlluniau ysgolion newydd neu ailfodelu sicrhau bod hi'n rhwydd ymestyn y ddarpariaeth os cyfyd y galw.

Mae'r Undeb hefyd yn llawn sylweddoli'r wasgfa ariannol sylweddol mae ysgolion ac Awdurdodau Addysg yn gorfod ymdopi ag o y dyddiau hyn. Rydym yn dwyn y materion hyn i sylw gwleidyddion yn gyson. O ran arbedion rhagweladwy rydym yn canfod yn aml fod yna gostau ychwanegol - yn gostau cyfalaf a chostau referniw - nad ydynt bob amser wedi eu hadnabod wrth gynllunio i ad-drefnu ysgolion sy'n arwain i'r gwir arbedion fod yn llai nag a ragdybir. Rydym yn casglu bod yr Awdurdod yn bur ffyddiog y bydd yn derbyn arian drwy grant ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun hwn ond hefyd yn rhagdybio bod y cynllun arfaethedig yn gwbl ddibynnol ar hynny.

Dewisiadau

Mae UCAC yn nodi bod y Ddogfen yn cyfeirio at wahanol Ddewisiadau fu dan ystyriaeth cyn hyn ond hefyd yn sylwi nad oes unrhyw ddewis o ran cydweithio, megis ffederaleiddio, wedi ei wyntyllu'n llawn. Ac eithrio'r dyfyniad o adroddiad Estyn, prin yw'r gydnabyddiaeth o fewn y Ddogfen i unrhyw gydwethio anffurfiol sy'n digwydd yn barod rhwng y tair ysgol.

Adeiladau/adnoddau

Mae'r Undeb yn cymeradwyo'r ddelfryd o gael adeiladau ac adnoddau addas i bwrpas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn cytuno bod cael yr amgylchedd dysgu gorau yn hanfodol i addysg disgyblion; byddem am ychwanegu bod hyn yn llesol i forâl staff hefyd. Rydym hefyd yn cydnabod bod ysgol yn adnodd gwerthfawr o fewn y gymuned ac y bydd colli'r ysgol bentref yn ergyd i ddwy o'r cymunedau. Mae'n bwysig bod ystyriaeth lawn yn cael ei roi i lais a phryderon y cymunedau hyn cyn dod i benderfyniad terfynol. Rydym yn llongyfarch staff y tair ysgol fel ei gilydd yn eu llwyddiant i hybu'r Gymraeg fel yr amlygir yn y Ddogfen. Croesawn y gosodiad yn y Ddogfen na ragwelir y bydd y cynnig i gyfuno'r tair ysgol yn '*cael effaith negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg*'. Rydym yn sylwi nad oes unrhyw gyfeiriad yn y Ddogfen at

leoliad yr Uned Iaith yn Nolgarrog a sut y bydd y datblygiad arfaethedig yma'n effeithio ar yr adnodd gwerthfawr hwn.

Mewn cyfnod o doriadau anghymharus o fewn llywodraeth leol, rhaid gofyn a fydd yr arian sydd ei angen i gyfateb i'r arian a ddisgwylir gan y Llywodraeth ar gael gan Gyngor Conwy i sicrhau bod y bwriadau'n dwyn ffrwyth. Heb sicrwydd o hynny nid oes bwrpas parhau efo'r bwriadau.

Staffio'r ysgolion newydd a threfniadau interim

Er bod y Ddogfen yn gam cyntaf ffurfiol yn y broses statudol o gyfuno'r ysgolion mae cyhoeddiadau sydd wedi eu gwneud yn barod wedi arwain pobl i feddwl bod penderfyniadau terfynol wedi eu gwneud yn barod. Mae hyn wedi amharu ar y sefydlogrwydd yn yr ysgolion ac, fel sy'n gyffredin mewn sefyllfa o'r fath, gwelwyd rhieni yn dechrau symud eu plant i ysgolion eraill gan beryglu swyddi yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae'r Undeb yn siomedig nad yw'r Awdurdod wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth ymateb i hyn.

Tra'n derbyn mai cyfrifoldeb Corff Llywodraethol Cysgodol fyddai pennu unrhyw strwythurau staffio terfynol i ysgol newydd, mae lle i'r Awdurdod fod yn rhoi mwy o ystyriaeth rŵan i oblygiadau'r cyfuno i swyddi staff presennol. Y cam cyntaf, wrth gwrs, fyddai penodi pennaeth a byddai UCAC am weld hyn yn digwydd o leiaf flwyddyn ymlaen llaw. Mae'r Undeb o'r farn bod lle i wyntyllu posibiliadau o ran trefniadau staffio interim ar y cyd rhwng y tair ysgol gyda'r nod o warchod swyddi a hybu dilyniant.

Pwyswn am gael penderfyniad buan ar faterion staffio ac am sicrhau bod staff y tair ysgol yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau a'u diweddarau'n gyson ar yr hyn sy'n digwydd. O ystyried na fydd unrhyw drefniant newydd yn debygol o fod yn ei le cyn 2017/2018 ar y cynharaf, mae staff yn mynd i wynebu cyfnod hwy o ansicrwydd a gall hyn ond effeithio'n negyddol ar safonau addysg a sefydlogrwydd yn y tair ysgol.

I gloi

Mae UCAC yn pwyso ar y Cyngor i wneud pob dim posibl i ddod i benderfyniadau terfynol ar ddyfodol ysgolion ardal Caerhun a Threfriw cyn gynted â phosibl gan geisio cadw at yr amserlen arfaethedig.

Rydym yn barod iawn i gydweithio efo'r Cyngor yn yr ymgais i hybu addysg yn y tair ysgol a gwarchod buddiannau ac amodau gwaith yr athrawon a'r staff eraill sy'n gweithio ynddynt. I'r perwyl hwn, byddai UCAC yn gwerthfawrogi cael gwahoddiad i unrhyw gyfarfod yn y dyfodol fydd yn delio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â swyddi staff o fewn yr ysgolion a effeithir gan yr ad-drefnu arfaethedig.

UCAC

Tachwedd 2015



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru